awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Amlinelliad o'r Swydd

## Teitl y swydd:
Cynorthwyydd Marchnata a Chyfathrebu

## Sail:
Rhan Amser – 22.5 awr yr wythnos

## Cyflog:
£15,854 y flwyddyn

## Statws:
Parhaol

## Canolfan:
Y Muni, Pontypridd

## Yn atebol i:
Rheolwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfaoedd

## Yn gyfrifol dros:
Amherthnasol

## Eich Rôl:

Bydd y rôl ran-amser hon yn cefnogi'r gweithgareddau marchnata a chyfathrebu sy'n gysylltiedig yn bennaf â'r Muni. Bydd angen i chi ddangos sgiliau creu cynnwys rhagorol, dealltwriaeth a phrofiad da o ddefnyddio gweithgareddau marchnata digidol a thraddodiadol, gan gynnwys pob llwyfan ar y cyfryngau cymdeithasol, a bydd angen i chi allu blaenoriaethu eich llwyth gwaith yn effeithiol. Trafodir dyddiau ac amseroedd gwaith yn ystod y cyfweliad.

.

# Yn y rôl hon, byddwch yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi'r Rheolwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfaoedd i roi cynllun marchnata Y Muni ar waith, gan sicrhau cysondeb brand ac ymrwymiad i'r Gymraeg ar draws yr holl sianeli marchnata a chyfathrebu a ddefnyddir.
- Creu a chwilio am gynnwys deniadol a pherthnasol ar gyfer gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Y Muni (a lleoliadau Awen eraill yn ôl yr angen), gan gynnwys blogiau, postiadau a fideos, a chydlynu ymgyrchoedd hysbysebu talu fesul clic, dan oruchwyliaeth.
- Gweithio gyda dylunydd graffig mewnol Awen ac argraffwyr allanol, ffotograffwyr, fideograffwyr a chyflenwyr eraill i sicrhau bod yr holl ddeunydd marchnata a gynhyrchir yn cael ei gyflwyno ar amser, o fewn y gyllideb ac yn addas at y diben.
- Datblygu gwybodaeth fanwl am alluoedd ein system swyddfa docynnau (Spektrix) i gynhyrchu adroddiadau marchnata cywir, creu cyfathrebiadau wedi'u teilwra, a chefnogi'r Rheolwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfaoedd gyda mentrau datblygu cynulleidfaoedd a chyfleoedd gwariant eilaidd.
- Cefnogi'r broses gynefino yn y farchnad werthu, a fydd yn cynnwys mynychu cyfarfodydd swyddfa docynnau wythnosol, gwirio manylion digwyddiadau yn Spektrix, a phrawfddarllen a chyhoeddi digwyddiadau ar wefannau Swyddfa Docynnau Awen a'r Muni.
- Gweithredu fel deiliad allweddi i'r Muni; agor a chau'r adeilad yn ôl yr angen ar sail rota benodedig, i ddiwallu anghenion y rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Efallai y bydd angen i chi hefyd weithio sifftiau yn y swyddfa docynnau yn achlysurol - eto, cytunir ar ddyddiadau/amseroedd ymlaen llaw - i gefnogi'r tîm ehangach.
- Cefnogi'r Rheolwr Cyffredinol gyda rhaglenni cychwynnol ac ymholiadau llogi preifat, drwy weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau a defnyddio'r cerdyn cyfraddau a/neu'r pecyn llogi cynadleddau i ddarparu gwybodaeth sylfaenol.
- Helpu i ymateb i gwynion ac ymholiadau gan gwsmeriaid (ar-lein ac wyneb yn wyneb) yn effeithlon ac yn broffesiynol, yn absenoldeb y Rheolwr Cyffredinol.
- Cynnig gwybodaeth am wasanaethau hygyrchedd Y Muni i gwsmeriaid yn hyderus.
- Bod yn swyddog cymorth cyntaf a sicrhau bod cymorth cyntaf yn cael ei roi yn unol â'r hyfforddiant.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol y rôl hon yw:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill, ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith effeithio arnynt.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd yn eich swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein diben a'n gwerthoedd ym mhopeth a wnewch, gan hyrwyddo ac ufuddhau i bedwar gwerth Awen bob amser – Creadigol, Grymuso, Cydweithredol a Theg.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn unol ag arferion gorau a deddfwriaeth.
- Mynd ati i herio gwahaniaethu a stigma yn y gweithle.
- Bod yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl.
- Gofalu am eich llesiant corfforol a seicolegol eich hun lle bynnag y bo modd.
- Cefnogi llesiant seicolegol a chorfforol ein cydweithwyr/tîm ac annog diwylliant empathig a chynhwysol.
- Bod yn gyfrifol wrth ein helpu i gyflawni ein huchelgais cynaliadwyedd drwy gyfrannu at leihau eich ôl troed carbon unigol a gweithio tuag at amcanion y sefydliad yn unol â strategaeth gynaliadwyedd Awen.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Awen.

*Nid yw'r rhestr hon yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n ffurfio'r swydd hon, a allai fod angen eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.*

# Manyleb y Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Brwdfrydedd a chymhelliant i wireddu pethau. (H)
- Agwedd gyfeillgar a hawdd mynd ati (H)
- Hyderus a phroffesiynol gyda'r gallu i ddelio â chydweithwyr a'r cyhoedd yn effeithiol (H)
- Yn gallu datrys problemau'n gyflym ac yn greadigol (H)
- Unigolyn sy'n canolbwyntio ar atebion ac sy'n gallu canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau
- Y gallu i rwydweithio a meithrin perthnasoedd a phartneriaethau cadarnhaol gydag ystod eang o randdeiliaid.
- Agwedd gadarnhaol, a pharodrwydd i awgrymu a chefnogi prosiectau a datblygiadau newydd arloesol.

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Gradd mewn marchnata neu radd gyfatebol, neu allu i ddangos cymhwysedd drwy brofiad (H)
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar, a sgiliau trin pobl rhagorol (H)
- Hunangymhellol ac yn gallu rheoli eich llwyth gwaith a'ch blaenoriaethau eich hun yn effeithiol (H)
- Yn rhoi sylw craff i fanylion a'r gallu i brawfddarllen (H)
- Sgiliau marchnata digidol a chreu cynnwys cryf (H)
- Sgiliau ysgrifennu copi hyderus a chreadigol (H)
- Profiad o reoli sianeli cyfathrebu digidol gan gynnwys gwefannau, Facebook ac Instagram (H)
- Profiad o gynnal ymgyrchoedd hysbysebu â thâl ar sianeli cyfryngau cymdeithasol (H)
- Y gallu i weithio dan bwysau a chyflawni canlyniadau o fewn terfynau amser tynn (H)
- Profiad blaenorol o weithio mewn rôl farchnata mewn sefydliad celfyddydol neu ddiwylliannol
- Gwybodaeth am system swyddfa docynnau Awen, Spektrix, a dealltwriaeth amdani
- Profiad o ddiweddaru gwefannau gan ddefnyddio systemau rheoli cynnwys
- Sgiliau TGCh rhagorol gan gynnwys Microsoft Office a llwyfannau cyfathrebu digidol eraill
- Y gallu i siarad Cymraeg.